| | RHIF RISG | RHANBARTHOL neu LEOL | CRYNODEB | BLAENORIAETH GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canllaw | Rhestrir mewn trefn rifol syml 1, 2, 3… ayyb. Bydd hyn yn hwyluso monitro ac yn caniatáu adnabod y risgiau sy'n dychwelyd yn rhwyddach | Defnyddir '**Rh**' (Rhanbarthol) neu '**Ll**' (Lleol) i nodi daearyddiaeth a lefel pwysigrwydd y risgiau a nodwyd | Rhoddir crynodeb o'r mater drwy ddewis o gwymplen o 'is-gategorïau' e.e. Rheoli Ansawdd, Llywodraethu, Rhesymoliad, Rheolaethau Ariannol | Y cysylltiad gyda phum blaenoriaeth GwE ble'n berthnasol - http://www.gwegogledd.cymru/cy/amdanom-ni/dogfennau-allweddol | Dyma ble'r amlinellir yn gryno ddisgrifiad o'r risg ar gyfer cyd-weithwyr. Dylid nodi'r risg a chanlyniadau'r risg. | Nodir sgôr risg '**U**' (Uchel), '**C**' (Canolig) neu '**I**' (Isel) yma yn ôl y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. | Nodir sgôr risg '**U**' (Uchel), '**C**' (Canolig) neu '**I**' (Isel) yma yn ôl effaith y risg pe bai'n digwydd. | Rhoddir gwybodaeth gryno yma ar y gweithgareddau sy'n digwydd ar hyn o bryd o fewn y rhanbarth/sir/corff partner/ysgol(ion) er mwyn mynd i'r afael ymlaen llaw â'r risg presennol a nodir | Yn syml, rhoddir sgôr risg '**U**' (Uchel), '**C**' (Canolig) neu '**I**' (Isel) yma ar gyfer y risg gyffredinol ar sail yr holl wybodaeth a rannwyd eisoes | Gall fod yn unigolyn, sefydliad partner, ysgol, ayyb. | Rhoddir gwybodaeth gryno yma ar y gweithgareddau arfaethedig sydd eu hangen ar y rhanbarth/sir/corff partner/ysgol(ion) er mwyn mynd i'r afael â'r risg a gostwng y risg |
| | 1 | Rh | Cyllidol | I GYD | Mae toriadau i gyllideb graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir | C | U | Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. | C | RhG / RhB&Ch | |
| | 2 | Rh | Cyllidol | I GYD | Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid grant gan LlC yn rhwystr i gynllunio strategol tymor hir | C | U | Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. | C | RhG / RhB&Ch | |
| | 3 | Rh | Cyllidol | I GYD | Mae cyllid grant yn cael ei ddosbarthu'n anghydradd rhwng y consortia gan arwain at anawsterau wrth gymharu perfformiad | C | U | Cynhelir trafodaethau ar lefel RhG y Consortia a chyflwynwyd fformiwla i'w hystyried i LlC | C | RhG | Parhau i weithio gyda chonsortia eraill a LlC er mwyn cytuno ar fformiwla fwy teg ar gyfer dosbarthiad y grant. |
| | 4 | Rh | Safonau | B1 | Mae'r un ysgolion yn cymryd rhan yn yr holl fentrau cyd-arweiniol (GwE a LlC) - gallai hyn arwain at gwymp yn safonau'r ysgolion sy'n cymryd rhan | U | C | Mae GwE, mewn partneriaeth â'r ALl, yn rhagweithiol wrth ddewis ysgolion | I | CC | Parhau i fonitro'r sefyllfa mewn partneriaeth â'r ALl a bod yn rhagweithiol wrth adnabod unrhyw effaith tebygol er mwyn unioni. |
| | 5 | Rh | Safonau | I GYD | Mae'r dasg a roddir i gonsortia yn newid yn barhaus, ac felly'n creu ansicrwydd ac yn lleihau'r tebygolrwydd o lwyddo | C | U | Gweithio gyda LlC. Cadw ffocws ar anghenion y rhanbarth a gwneud ymdrech i rannu arferion/ modelau ar draws y consortia | C | RhG | Parhau i weithio gyda LlC a chadw ffocws ar anghenion y rhanbarth. |
| | 6 | Rh | Llywodraethu | B5 | Mae'r ffocws ar brosesau a strwythurau yn tynnu sylw oddi ar y pwrpas craidd | C / I | U | Ffocws ar gyflawni Rhaglen Her a Chefnogaeth GwE. Sicrhau hyblygrwydd mewn ymateb i anghenion newidiol. | I | RhG/CC | Parhau i fonitro'r effaith ar gynnydd ysgolion a chymryd camau gweithredu cyflym lle bo angen. |
| | 7 | Rh | Llywodraethu | I GYD | Rhy adweithiol yn hytrach na rhagweithiol - blaenoriaethau newidiol | U | C | Mae cynllun busnes strategol 3 blynedd bellach yn ei le. Mae Arweinydd Strategaeth Hunan-wella wedi'i benodi o Fedi 2016. | C | RhG | |
| | 8 | Rh | Safonau | B1 / B2 / B3 | Systemau gwybodaeth / data rhanbarthol yn gyfyngedig sy'n golygu nad yw GwE yn gallu canfod anghenion ysgolion ar draws y rhanbarth yn effeithiol | U | U | Bwrdd Rheoli GwE yn cytuno ar yr angen i gynyddu capasiti. Hysbysebwyd swydd secondiad 12 mis a phenodwyd ymgeisydd i'r swydd (i ddechrau yn Ebrill 2016). | C | Bwrdd Rheoli | Mae angen i Fwrdd Rheoli GwE gynnal trafodaethau pellach ynglŷn â'r Gwasanaeth Data Rhanbarthol. |
| | 9 | Rh | Llywodraethu | B5 | Nid yw comisiynu'r ALl / rhwydweithiau rhanbarthol wedi'i ymgorffori'n llawn yn y strwythur llywodraethu rhanbarthol | C | U | Fersiwn 2 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn cael ei ddatblygu i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion ac i sicrhau eglurder ar atebolrwydd rhwydweithiau'r rhanbarth/ bod strwythurau'r ALl yn eu lle | C | Cydbwyllgor / Bwrdd Rheoli | Cytuno ar fersiwn 2 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'i gwblhau. |
| | 10 | Rh | Busnes | I GYD | Cyfathrebu gydag ysgolion - gall fod yn anodd cydbwyso'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod negeseuon a gwybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa darged. Mae risg nad yw'r wybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa ofynnol. | U | C | Cyswllt e-bost wedi'i resymoli i fwletin wythnosol sy'n cael ei anfon i'r holl ysgolion (ac i eraill sydd ar restr bostio GwE) ac yn cael ei gysylltu i wefan GwE. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol fel dull effeithiol o gyfathrebu - nifer da o ddilynwyr trydar (1280 ar hyn o bryd) | C | RhB&Ch | Parhau i hyrwyddo rhestr bostio'r bwletin. Ail-ddylunio'r wefan i sicrhau mynediad rhwydd. Parhau i ddatblygu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. |
| | 11 | Rh | Safonau | B1.1 / B1.2 | Anawsterau recriwtio gweithlu addysgu cymwys o ansawdd uchel o fewn ysgolion yn y rhanbarth, sy'n cael effaith ar safonau ym mhob pwnc megis Saesneg a mathemateg | U | U | Nifer o raglenni datblygu yn cael eu cynnig i uwchsgilio'r gweithlu presennol | C/U | RhG / CC | Penodi Ymgynghorwyr Her pwnc-benodol. |
| | 12 | Rh | Safonau | B3 | Nid yw'r holl ysgolion yn rhannu'r weledigaeth o gyfundrefn sy'n hunan-wella | C | U | Mewnosod Rhaglen Her a Chefnogi GwE yn llawn. Amlygu a rhannu arfer dda. Datblygu ac ehangu'r model gweithio i fod yn addas i'w ddiben. Penodi arweinydd strategaeth hunan-wella i yrru'r gyfundrefn yn ei blaen. | C | RhG | Arweinydd strategaeth ar gyfer y gyfundrefn hunan-wella wedi'i benodi ar sail secondiad. Secondiad i ddechrau yn llawn amser o Fedi 2016. |
| | 13 | Rh | Safonau | B1 / B2 / B3 | Recriwtio Ymgynghorwyr Her o safon i weithio yn y sector uwchradd | U | U | Adolygu'r polisi recriwtio. Cynnig cyfleoedd am secondiad i benaethiaid profiadol. Comisiynu penaethiaid profiadol sydd wedi ymddeol. Cynnal Rhaglen Datblygu Ymgynghorwyr Her i uwchsgilio Ymgynghorwyr Her. | C/U | CC | Adolygu'r sefyllfa yn dilyn yr ymgyrch recriwtio ddiweddaraf. Parhau i ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Datblygu Ymgynghorwyr Her i uwchsgilio Ymgynghorwyr Her. |
| | 14 | Rh | Safonau | B1 | Newidiadau Cwricwlwm a chymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion | C | U | Gweithio gyda LlC, CBAC i gyfathrebu ac egluro newidiadau. Rhaglenni cefnogaeth yn eu lle. Cefnogi'r fenter Ysgolion Arloesi yn llawn. | C | CC | Arweinydd wedi'i benodi ar gyfer y fenter Ysgolion Arloesi. |
| | 15 | Rh | Safonau | I GYD | Anawsterau recriwtio penaethiaid ar draws y rhanbarth | U | U | Darparu'r CPCP; Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth i gynnwys rhaglenni ar gyfer darpar arweinwyr a phenaethiaid. | C | RhG / CC | Datblygu'r strategaeth ymhellach i ganiatáu ymateb rhagweithiol i broblemau recriwtio penaethiaid ar draws y rhanbarth. |
| | 16 | Rh | Safonau | I GYD | Ni all y gwasanaeth ddiwallu lefel y disgwyliadau ar draws chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru | U | U | Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng GwE a'r ALl wedi'i adolygu (06/11/15). Cynllun busnes strategol 3 blynedd bellach yn ei le ac yn cynnwys atodiad lleol ar gyfer pob ALl. Cytundeb Partneriaeth rhwng ALl ac Ysgolion wedi'i gyflwyno i sylw'r Cyd-Bwyllgor (24/02/16). | C | Bwrdd Rheoli / RhG | Cytuno ar fersiwn 2 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'i gwblhau. |
| | 17 | Rh | Safonau | I GYD | Capasiti yn annigonol o fewn y gwasanaeth i gyflawni mentrau amrywiol LlC | C | U | Recriwtio secondiadau llawn/rhan amser i'r gwasanaeth er mwyn cyflawni'r rhaglenni amrywiol. Comisiynu unigolion sydd â phrofiad perthnasol i ddarparu capasiti ychwanegol yn ôl yr angen. | I | RhG | |
| | 18 | Rh | Safonau | I GYD | Toriadau i gyllideb ysgolion yn effeithio gallu ysgolion i barhau i godi safonau | U | U | Mae'r Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau yn gweithio gydag ysgolion i leihau'r effaith. Mae'r posibilrwydd o uwchsgilio Rheolwyr Busnes Ysgolion ar draws y rhanbarth yn cael ei archwilio. | C/U | Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau | Mae angen trafodaethau pellach ynglŷn â'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Busnes Ysgolion. |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Rh | Llywodraethu | B5 | Diffyg datblygu Craffu | C | C | Cynigwyd a chytunwyd ar fodel o gydlynu trefniadau craffu ffurfiol ar gyfer y rhanbarth gan y Cyd-Bwyllgor (Tachwedd 2015). Mae'r model bellach yn cael ei weithredu. | I | Cydbwyllgor / Bwrdd Rheoli | Parhau i weithio gyda phwyllgorau Craffu i ddatblygu arferion gorau, sicrhau bod ymrwymiad/ adrodd yn ôl a thrafodaethau yn effeithiol ac o ansawdd, ac osgoi dyblygiad. |
| 20 | Rh | Cyllidol / Safonau | B1 / B2 | Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol | U | U | | U | Bwrdd Rheoli | Bwrdd Rheoli i adolygu rolau'r Rhwydweithiau Rhanbarthol mewn perthynas â'r GGA yn ystod tymor yr haf. |
| 21 | Rh | Llywodraethu / Safonau | B5 | Ansicrwydd ynglŷn â chyfeiriad elfennau o fewn y Model Cenedlaethol yn y dyfodol | C | C | | C | Bwrdd Rheoli | Bwrdd Rheoli i adolygu rolau'r Rhwydweithiau Rhanbarthol mewn perthynas â swyddogaethau'r Model Cenedlaethol yn ystod tymor yr haf. |
| 22 | Rh | Llywodraethu | B5 | Gall newidiadau i arweinyddiaeth yr awdurdodau effeithio'r gefnogaeth wleidyddol neu gorfforaethol | C | C | Mae dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau'r holl awdurdodau a GwE dros gyfeiriad strategol y rhanbarth. | C | CA / RhG | Parhau gyda'r gweithgareddau presennol. |
| 23 | Rh | Safonau | B4 | Gall secondiadau Ymgynghorwyr Her arwain at drosiant uchel o YH ac effeithio felly ar ymrwymiad | U | C | Bwriadu ymestyn secondiadau i gyfnod o 2 flynedd (yn ddibynnol ar gyllid) er mwyn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng profiad ac adnabyddiaeth o ysgolion. | I | RhG | |
| 24 | Rh | Safonau | B1 | Y risg nad yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol | C | C | Herio a monitro ysgolion ar eu defnydd o'r GAD a'i effaith ar berfformiad disgyblion PYD. | C | UYHaCh (SM) | Adnabod a rhannu arferion da er mwyn gwella perfformiad disgyblion PYD. |
| 25 | Rh | Safonau | B1 / B4 | Gall anghysondeb ym marnau Ymgynghorwyr Her olygu nad yw ysgolion yn derbyn ymyrraeth lle bo angen ar draws y rhanbarth | I | U | Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad, rheoli ansawdd ac atebolrwydd grymus yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Cyflawnir dadansoddiad sgiliau ac mae rhaglen hyfforddi/ datblygu yn ei lle. Rhannu arfer dda mewn modd mwy effeithiol ar draws yr hybiau. Defnyddio penaethiaid uwchradd profiadol i dargedu gwelliant yng Nghyfnod Allweddol 4. | I | CC / UYHaCh | |
| 26 | Rh | Llywodraethu / Safonau | B5 | Diffyg datblygu rôl strategol y Rhwydweithiau Rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor | C | U | Adolygiad o strwythur y Rhwydwaith Rhanbarthol yn rhan o Raglen Waith y Bwrdd Rheoli ar gyfer Tymor yr Haf 2016. | C | Bwrdd Rheoli | |
| 27 | Rh | I GYD | I GYD | Gall newidiadau gwleidyddol arwain at newid yn y polisi cenedlaethol gan effeithio ar gyfeiriad strategol yn y dyfodol | C | C | Cadw dulliau o gyfathrebu cyson rhwng y rhanbarth a Llywodraeth Cymru yn agored. | C | Cydbwyllgor | |
| 28 | Rh | I GYD | I GYD | Nid yw'r cyfeiriad strategol yn adlewyrchu barnau Plant a Phobl Ifanc yn y rhanbarth | C | I | Mae angen datblygu strategaeth i gasglu barnau Plant a Phobl Ifanc ar gamau gweithredu GwE. | I | RhG | |
| 29 | Rh | Safonau | B1 / B4 | Diffyg cefnogaeth arbenigol i Ysgolion Arbennig | C | C | Ymgynghorydd Her gyda ffocws arbenigol ar Ysgolion Arbennig wedi'i benodi ac yn cychwyn yn y swydd yn Ebrill 2016. | I | RhG | |
| 30 | Rh | Safonau | B1 / B4 | Diffyg cefnogaeth arbenigol i UCD ar draws y rhanbarth, ac felly nid oes gan GwE drosolwg o safonau yn y sector pwysig hwn | C | U | Ni lwyddwyd i recriwtio Ymgynghorydd Her i arbenigo mewn UCD. Cytunwyd i ychwanegu at gapasiti presennol Ymgynghorwyr Her a darparu hyfforddiant a chefnogaeth iddynt gefnogi UCD. Penodwyd ar gyfer y capasiti ychwanegol a fydd yn ei le o Fedi 2016. | C / U | RhG | Cynigir hyfforddiant i'r holl Ymgynghorwyr Her yn ystod tymor yr haf 2016. |
| 31 | Rh | Llywodraethu / Safonau | B2 | Nid oes gan lywodraethwyr y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i weithredu fel ffrindiau beirniadol | C | C / U | | C / U | Bwrdd Rheoli | Bydd Cefnogaeth a Hyfforddiant i Lywodraethwyr yn rhan o adolygiad o strwythur y Rhwydweithiau Rhanbarthol (Rhaglen Waith y Bwrdd Rheoli ar gyfer Tymor yr Haf 2016). |
| 32 | Rh | Safonau | B1 / B4 | Diffyg capasiti i ddarparu'r lefel o her a chefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion categori melyngoch/coch | C | C / U | Trafodaethau yn parhau yn rhanbarthol a chenedlaethol ynglŷn â thargedu'r cyllid craidd a chyllid grant. | C | RhG | |
| 33 | R | I GYD | I GYD | Canlyniad is na digonol yn arolygiad y consortiwm yn arwain at niwed i enw da ac yn rhwystro datblygiad system sy'n hunan-wella yn y rhanbarth. | C | U | Cynllun busnes strategol 3 blynedd ar waith. Camau gweithredu wedi eu cymryd ar yr argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad Estyn (Ionawr 2015). | I / C | Cyd-bwyllgor/ Bwrdd Rheoli/ UDA | Cyfathrebu canlyniadau'r hunan arfarniad yn glir. Mae angen cyfathrebu clir yn dilyn adroddiad Estyn. |